# Hybu oedolaeth, dinasyddiaeth ac annibyniaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn amlinellu'r gofynion ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc i baratoi ar gyfer oedolaeth, dinasyddiaeth, ac annibyniaeth. Mae’n cynnwys cefnogi plant a phobl ifanc i gael gafael ar gymorth, cyngor a gwybodaeth am y meysydd hyn. Mae hyn yn cynnwys nodi’r sgiliau a’r galluoedd sydd eu hangen ar gyfer dinasyddiaeth ac oedolaeth effeithiol a pharatoi plant a phobl ifanc ar gyfer annibyniaeth a newidiadau yn y dyfodol fel addysg, cyflogaeth, iechyd, tai, rhyngweithio cymdeithasol a pherthnasoedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael gafael ar gymorth, cyngor a gwybodaeth i baratoi plant neu bobl ifanc ar gyfer oedolaeth, dinasyddiaeth ac annibyniaeth
2. hybu amgylcheddau cynhwysol lle mae plant neu bobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, ac amgylcheddau sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, cymryd risgiau cadarnhaol a diwylliant sy'n seiliedig ar hawliau
3. annog plant neu bobl ifanc i rannu eu meddyliau, eu teimladau a'u pryderon am oedolaeth, dinasyddiaeth, ac annibyniaeth
4. meithrin perthynas â phlant neu bobl ifanc i ddatblygu ymddiriedaeth a chyfathrebu agored
5. darparu'r cymorth iawn ar gyfer lefel annibyniaeth a datblygiad plant neu bobl ifanc
6. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc i nodi eu dyheadau
7. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc i nodi canlyniadau o ran paratoi ar gyfer oedolaeth
8. mynd ati gyda phlant neu bobl ifanc i archwilio eu cymhellion dros gyflawni canlyniadau a sut y gallant ddylanwadu ar newid yn eu bywydau
9. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc i nodi eu sgiliau, eu galluoedd a'u cryfderau o ran paratoi ar gyfer oedolaeth, dinasyddiaeth ac annibyniaeth, a chynllunio'r camau y mae angen eu cymryd i gyflawni eu canlyniadau a'u dyheadau
10. gweithio gyda phlant neu bobl ifanc i nodi a goresgyn heriau i gyflawni eu canlyniadau a'u dyheadau
11. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc i gynllunio adnoddau, gwybodaeth, gwasanaethau a chymorth cymunedol
12. cefnogi plant neu bobl ifanc i osod meini prawf a chamau gweithredu i fonitro a gwerthuso'r canlyniadau
13. cytuno ar sut y bydd cynlluniau'n cael eu cofnodi, eu rhannu, a phwy fydd yn cael mynediad at yr wybodaeth
14. cefnogi plant neu bobl ifanc ac eraill i weithredu a monitro cynlluniau yn erbyn meini prawf a chamau gweithredol penodol
15. cefnogi plant neu bobl ifanc i feithrin perthnasoedd, datrys gwrthdaro a datblygu gwydnwch mewn perthynas â heriau a rhwystrau
16. annog plant neu bobl ifanc i ddeall safbwyntiau pobl eraill a dangos urddas,

caredigrwydd a thosturi

17. rhoi plant neu bobl ifanc mewn cysylltiad â modelau rôl cadarnhaol a all ddarparu arweiniad a chefnogaeth wrth fynd drwy newidiadau
18. cefnogi plant neu bobl ifanc i ddatblygu dulliau rheoleiddio emosiynol yn ystod cyfnodau pontio neu drawsnewid
19. gweithio gyda gwahanol asiantaethau a gwasanaethau i sicrhau cyfnodau pontio didrafferth
20. adnabod ac atgyfnerthu ymdrechion, cryfderau a chynnydd tuag at y canlyniadau i blant neu bobl ifanc
21. grymuso plant neu bobl ifanc i werthuso eu canlyniadau
22. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen mewn perthynas â’ch gwaith gyda phlant neu bobl ifanc
23. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu oedolaeth, dinasyddiaeth, ac annibyniaeth

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. ble a sut mae cael gafael ar gymorth, cyngor a gwybodaeth i gefnogi plant a phobl ifanc i baratoi ar gyfer oedolaeth, dinasyddiaeth, ac annibyniaeth
2. strategaethau ar gyfer meithrin perthnasoedd ymddiriedus a chyfathrebu'n agored â phlant a phobl ifanc
3. sut mae creu diwylliant diogel a chefnogol sy'n hybu gwneud penderfyniadau, cymryd risgiau cadarnhaol a hawliau
4. sut mae cysoni'r cymorth sydd ei angen ar gyfer plant a phobl ifanc wth iddynt ddatblygu annibyniaeth
5. y ffactorau emosiynol, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc wrth iddynt baratoi ar gyfer oedolaeth, dinasyddiaeth ac annibyniaeth
6. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc
7. ffyrdd o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc wrth archwilio eu dyheadau ar gyfer addysg, cyflogaeth, iechyd, tai, rhyngweithio cymdeithasol a pherthnasoedd yn y dyfodol
8. sut mae cefnogi plant a phobl ifanc i weld eu hunain fel dinasyddion llwyddiannus, hyderus a chyfrifol yn ogystal â chyfranwyr effeithiol at gymdeithas
9. y sgiliau, y galluoedd a'r cryfderau y bydd eu hangen ar blant a phobl ifanc i gynllunio ar gyfer oedolaeth, dinasyddiaeth ac annibyniaeth, ac i'w paratoi ar gyfer hynny
10. sut mae llunio cynlluniau effeithiol y gellir eu cyflawni
11. yr heriau cymdeithasol, economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol a chorfforol y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu wrth baratoi ar gyfer oedolaeth, dinasyddiaeth ac annibyniaeth
12. y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth sy'n berthnasol i oedolaeth, dinasyddiaeth ac annibyniaeth
13. yr arwyddion a all ddangos bod plant a phobl ifanc yn barod ar gyfer oedolaeth, dinasyddiaeth ac annibyniaeth
14. strategaethau i gefnogi plant a phobl ifanc i feithrin perthnasoedd, datrys gwrthdaro a datblygu gwydnwch
15. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth baratoi plant a phobl ifanc ar gyfer oedolaeth, dinasyddiaeth ac annibyniaeth
16. strategaethau i gefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau i reoleiddio eu

hemosiynau eu hunain
17. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar baratoi ar gyfer oedolaeth, dinasyddiaeth ac annibyniaeth
18. sut mae cefnogi plant a phobl ifanc sy'n ofalwyr i baratoi ar gyfer oedolaeth, dinasyddiaeth ac annibyniaeth
19. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i baratoi plant a phobl ifanc ar gyfer oedolaeth, dinasyddiaeth ac annibyniaeth
20. rôl dulliau sy’n seiliedig ar gryfderau o ran paratoi plant a phobl ifanc ar gyfer oedolaeth, dinasyddiaeth ac annibyniaeth
21. pwysigrwydd grymuso plant a phobl ifanc i ddatrys problemau a rhwystrau
22. sut mae dod o hyd i gymorth, cyngor ac arweiniad pan fydd plant a phobl ifanc yn methu â datrys problemau a rhwystrau
23. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu oedolaeth, dinasyddiaeth, ac annibyniaeth
24. theorïau sy’n berthnasol i oedolaeth, dinasyddiaeth, ac annibyniaeth
25. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu oedolaeth, dinasyddiaeth, ac annibyniaeth
26. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu oedolaeth, dinasyddiaeth, ac annibyniaeth
27. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu oedolaeth, dinasyddiaeth, ac annibyniaeth
28. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu oedolaeth, dinasyddiaeth, ac annibyniaeth, a sut i fynd i'r afael â hyn
29. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu oedolaeth, dinasyddiaeth, ac annibyniaeth

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Hybu oedolaeth, dinasyddiaeth ac annibyniaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD367 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Oedolaeth, Dinasyddiaeth, Annibyniaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |